

# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 11

Yn rhad ac am ddim

Chwefror 2023

## Dysgwyr Llanelli



### Shwmae a Chroeso i Glwb Clecs Llanelli

Grŵp bach o ddysgwyr dyn ni sy'n mwynhau siarad Cymraeg. Fel arfer, dyn ni'n cwrdd bob nos Lun yn Nhafarn y Glowyr (The Colliers) yn Ffwernes, Llanelli. Sefydlwyd y grŵp yn 2017 gan un o'r aelodau pan ddechreuodd hi ddysgu Cymraeg. Cyn y cyfnod clo roedd tua wyth i ddeg ohonom ni yn y grŵp. Ceision ni barhau ar lein ond nid oedd yr un peth â chwrdd wyneb yn wyneb. Erbyn hyn, mae'r grŵp yn cynnwys calon o aelodau rheolaidd, ac eraill sy'n dod pan fyddan nhw'n gallu. Dyn ni'n ffodus iawn i gael siaradwr Cymraeg rhugl yn ein plith; defnyddiol iawn.

Felly, beth sy'n digwydd yn y grŵp? Weithiau dim ond sgwrsio dyn ni, ond fel arfer, ar ôl i ni ddal i fyny gyda newyddion yr aelodau dyn ni'n chwarae gemau geiriau neu gwis er enghraifft. Hoffech chi ymuno â ni? Mi fydd croeso cynnes

iawn i bawb. Gallwch chi ddod o hyd i ni yn y dafarn am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Cod post y dafarn yw SA15 4HR.

[clwbclecsllanelli@gmail.co](mailto:clwbclecsllanelli@gmail.co)

#### What about forming a group?

Doing so would put your classroom theory into practice and it is only by practice that the theory starts to make sense.

You will make much quicker progress and meet with others who are learning Welsh.

In future years you will be able to help others who are starting to learn.

Talk to the others in your class, find a cafe, buy a coffee - and chat!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Mae llawer o wahanol ffyrdd i chi gyfarfod a siarad Cymraeg ac, unwaith dach chi wedi cyrraedd rhyw safon, dyna beth ddylech chi wneud. Mae dysgu unrhyw iaith yn dibynnu ar y damcaniaeth a'r ymarferol ac mae'r ddwy elfen hynny yn mynd law yn llaw. Y damcaniaeth wrth gwrs yw eich gwaith yn y dosbarth a dyma le dach chi'n dysgu'r rheolau. Yr ymarferol yw pan dach chi'n siarad yr iaith yn naturiol.

Yn aml iawn mae'r rheolau yn achosi dryswch – pa pryd dach chi'n gorfod treiglo er enghraifft ac mae'r holl reolau yma yn rhedeg o gwmpas yn eich pen ac yn gallu rhoi chi mewn panig llwyr. Ond, ar y llaw arall mae sgwrsio yn Gymraeg yn rhoi popeth yn ei le ac mae popeth yn gwneud synnwyr.

Er mwyn dysgu unrhyw iaith y gwaith ymarferol sydd yn bwysig. Dyna beth sydd yn egluro popeth. Mae ffurfio grŵp yn eich ardal leol yn beth wych i wneud, cyfle i chi ddefnyddio eich iaith yn wythnosol a chyfle i'r Cymry Cymraeg eich clywed chi. Ac, yn debyg iawn, i siarad efo chi.

Ac os dach chi'n hoffi byd natur a chrwydro yn y cefn gwlad dewch ar un o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd. Credwch i fi na fyddwch yn unig - byddech yn cael croeso mawr a llond diwrnod o sgwrsio efo wahanol bobl. Mi fydd cyfle i chi ddysgu am yr ardal lle dach chi'n cerdded, yr hanes a'r byd natur sydd o gwmpas Byddech yn gwneud ffrindiau newydd ac wedi dod i mewn i'r gymuned Gymraeg.

A dyna pam dach chi wedi penderfynu dysgu Cymraeg ynte?

Dim ond £20 y flwyddyn dach chi'n talu am eich aelodaeth ac mae'n werth pob ceiniog ond dyn ni'n fodlon i chi gael 'taster' am ddim cyn i chi benderfynu!

There are many different ways for you to meet and chat in Welsh and, once you have reached a certain level, that is what you should do. Learning any language means a bit of theory and a bit of practice and those two elements go hand in hand. The theory, of course, is your work in the classroom and this is where you learn the rules. The practical is where you speak in a natural environment

Very often the theory causes confusion - when do you have to mutate for example and all the rules run circles in your head and can put you in a complete panic. On the other hand chatting in Welsh puts everything in its place and everything makes sense.

In order to learn any language the practical is all-important. That is what makes sense of the rules. Forming a group in your area is a great thing to do, a chance for you to use your Welsh on a weekly basis and also a chance for native Welsh speakers to hear you. And, most likely, to stop and talk to you.

And if your interest is the world of nature and walking in the countryside why not come on one of Cymdeithas Edward Llwyd's walks. Believe me you won't be lonely - you will have a warm welcome and a whole day of chatting about all sorts of things. You will get a chance to learn about your locality, its history and the whole nature around you. You will make new friends and you will have reached the Welsh community.

And that's why you decided to learn Welsh isn't it?

Only £20 a year for single membership and worth every penny but we are happy for you to have a couple of 'tasters' free of charge to help you decide!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

# Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

## Geoff Causer

Geoff dw i a dw i'n byw yn Y Rhyl yng Ngogledd Cymru. Rydw i'n 71 oed ac wedi ymddeol ers sawl blwyddyn. Cyn ymddeol roeddwn yn beiriannydd gyda Nwy Prydain. Dw i'n briod efo Helen ac mae gen i un mab sy'n byw ac yn gweithio yn Llundain. Rydw i'n mwynhau cerdded ar y traeth a'r prom yn y Rhyl a hefyd wrth fy modd efo'r golygfeydd o'r môr, Eryri a'r Great Orme yn Llandudno.

Hefyd, dw i'n hoffi gwyllo pêl-droed yn fyw ac ar y teledu. Ers ymddeol rydw i wedi dechrau chwarae bowls ac yn yr haf dw i'n chwarae tua thair gwaith yr wythnos. Hefyd, dw i'n mwynhau seiclo pan fydd y tywydd yn braf.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers i mi ymddeol, yn wreiddiol mewn dosbarth ac yn ystod y pandemig ar Zoom. Ar hyn o bryd dw i'n dysgu ar fy mhen fy hun a thrwy ddefnyddio SSIW.

## Caroline de Groot

Fy enw i yw Caroline. Dw i'n byw yng Ngogledd Dyfnaint. Pan mae'r tywydd yn braf, gallwn ni weld arfordir Cymru o'n harfordir ni ac wedyn dw i'n teimlo bo' ni'n gymdogion!

Dw i'n 75 oed ac wedi ymddeol. O'n i'n arfer gweithio mewn canolfan celf (ymhlith pethau eraill) a dw i'n dal yn gwerthu llyfrau ail-law.

Mae gyda fi tair merch. Mae'r hynaf yn byw yn America, mae'r ifancaf yn byw ym Mhontypridd ac yr un arall yn mynd i symud i bentre' ger Penybont ar Ogwr. Felly dw i'n ystyried symud i Gymry fy hunan. Dw i'n gobeithio byddai'n gwella fy Nghymraeg.

Dw i wrth fy modd efo cerddoriaeth a dw i'n chwarae tipyn bach o'r melodeon a dw i'n trio chwarae'r fiola. Hefyd dw i'n hoffi cerdded yn y cefn gwlad, darllen llyfrau a gwyllo ffilmiau.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda SSIW am gwpl o flynyddoedd. Mae SSIW yn dda iawn ond dydi nhw ddim yn dysgu ysgrifennu. Mae'r **3**

Wennol yn ddefnyddiol iawn felly a hefyd yn ddiddorol iawn. Diolch yn fawr, Rob!

## David Robinson

David dw i, a dw i'n byw ym Mhorthcawl. Dw i'n dod o Sir Gaerhirfryn (Lancashire) yn wreiddiol, a dw i'n dysgu Cymraeg.

Dw i'n briod â Mark, ac mae tri brawd gyda fi. Arlunydd ydw i, a dw i'n hoffi peintio.

Dw i'n mynd i gapel Cymreig ym Mhorthcawl, Capel y Tabernacl, ac mae'n wych i siarad (a chanu!) tipyn o Gymraeg ar ddydd Sul!

## Elinor Landeg

Helo pawb, Elinor dw i. Dwi'n byw mewn pentre' bach ger Penybont-ar-Ogwr, de Cymru. Dwi'n gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd yng Nghaerdydd. Mae dau blentyn a dwy gath gyda fi. Dwi'n mwynhau rhedeg, darllen, nofio yn y môr, ac ymarfer ysgrifennu yn Gymraeg!

Dysgais i Gymraeg yn yr ysgol, ond do'n i ddim yn defnyddio hi. Bron dwy flynedd yn ôl, dechreuais i ddysgu eto. Dwi'n trio siarad Cymraeg pan mae'r cyfle gyda fi. Dwi'n cwrdd â fy ffrindiau sy'n byw yn fy mhentref bob mis i siarad Cymraeg yn y dafarn. Mae wastad yn haws gyda chwrrw!

## Ken Jones

Shwmae, Ken dw i. Ces i fy ngeni yn Lloegr ym mil naw pump pump. Symudais i lawer o weithiau pan o'n i'n ifanc gyda fy rheini. O'r diwedd symudais i Gymru yn dwy fil un deg saith gyda fy ngwraig. Wedyn symudodd ein plant ni i Gymru. Maen nhw'n byw yn agos aton ni ar Gŵyr. Dw i'n meddwl dydyn nhw ddim yn gallu byw hebom ni.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Dorothy Holland

Sut mae pawb? Dorothy dw i. Dw i'n byw yn Nhegryn, ger Crymymch. Dw i wedi byw yma ers pum mlynedd. Dw i'n mwynhau canu, a dwi wastad wedi canu mewn corau ers i mi fod yn ifanc.

Pan symudais i Degryn do'n i ddim yn siarad Cymraeg o gwbl. Serch hynny, ymunais â Chôr Crymymch. Achos dw i'n gallu darllen cerddoriaeth a dw i wedi bod mewn llawer o gorau, gallwn i ddeall beth oedd yn digwydd.

Mae canu yn Gymraeg wedi helpu'n fawr gydag ynganu. Dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau ac yn siarad Cymraeg bob wythnos.

## Laura Thomas

Shwmae pawb, Laura dw i a dw i'n byw yn Resolfen yng Nghastell Nedd. Dw i wedi dysgu Cymraeg ers chwe blynedd nawr, efallai'n fwy, ond dw i wrth fy modd yn dysgu'r iaith. Dw i newydd symud i Resolfen a dyn ni'n mwynhau byw mewn ardal newydd.

Dw i'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau, felly dw i jyst yn gwneud gwaith papur a helpu cwsmeriaid. Dw i ddim yn gallu dweud mod i'n hoffi fy swydd ond dw i'n hoffi helpu pobl.

Mae ci a chath 'da ni. Benny yw enw'r ci a Gwen yw enw'r gath. Dyw Gwen ddim yn hoffi Benny o gwbl ond mae Benny yn wastad eisiau chwarae gyda Gwen.

Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi darllen ac ar hyn o bryd dw i'n darllen Blodwen Jones, "Tri Chynnig i Blodwen Jones". Dw i wedi mwynhau darllen y gyfres a dw i wedi ffeindio'r llyfrau hyn wedi helpu fi gyda fy nysgu. Dylwn i ddarllen mwy o lyfrau Cymraeg felly efallai dyna fydd fy addewid yn y flwyddyn newydd.

## Ken Passmore

Helo, Ken ydw i a dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers blyneddodded. Dechreuais yn y ffrwd Cymraeg yn yr Ysgol Gynradd ond penderfynodd fy nhad (o Loegr) bod e ddim eisiau pawb arall o'i gwmpas yn y teulu yn siarad Cymraeg. Chollais i'r siawns i ddysgu mwy o Gymraeg yn yr Ysgol

Ramadeg achos dwedodd yr athrawon bod rhaid i ni wneud Ffrangeg ar gyfer fynd i'r brifysgol. Wnes i ddim dysgu llawer o Gymraeg yn y brifysgol er roedd tywysog Charles yn y brifysgol ar yr un pryd ac yn ei wneud.

Roedd y plant a fi yn siarad Cymraeg gyda'n gilydd tan oedden nhw'n llawer gwell na fi ac yn dechrau chwerthin ar fy mhen. Wedyn triais i ddysgu Cymraeg ar fy mhen fy hun gyda Catchphrase ar y radio neu drwy lyfrau, ond heb llawer o lwyddiant. Ar ôl i fi ymddeol dechreuais i ddysgu Cymraeg o ddifri mewn dosbarth canolradd Cymraeg i oedolion yn y ganolfan addysg gydol oes, Garth Olwg.

Penderfynais i wedyn gwneud yr arholiad Uwch achos o'n i'n sylweddoli bod rhaid i fi wneud dipyn bach o waith ac roedd yr her yn gallu helpu fi pwysleisio i wella fy Nghymraeg. Nawr dw i'n mynychu cwrs Gloywi Iaith i adolygu ac atgyfnerthu beth dw i wedi dysgu yn barod. Y peth nesa yw siarad â fy ngwraig yng Nghymraeg ond mae hynny'n gam mawr.

## Lindy Calvin-Thomas

Fy enw i yw Lindy. Dw i wedi ymddeol nawr. Roeddwn i'n Athrawes feithrin yn swydd Efrog. Dw i'n cadw'n brysur gyda phump o wyrion! Mae un yn mynd i ysgol Gymraeg yng Nghasnewydd, felly dw i'n gallu ymarfer fy Nghymraeg. Mae fy ŵyr yn dweud i mi'n aml "Nain, wyt ti'n ddweud hynny'n anghywir! Plant!

Symudais i Gymru chwe blynedd yn ôl. Yn wreiddiol dw i'n dod o swydd Efrog. Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Meddyliais, dw i'n symud i Gymru ac mae angen i mi ddysgu'r iaith!

Dw i wedi ymuno â'r U3A yma, rhywbeth dw i'n mwynhau yn fawr, yn enwedig y grwpiau cerdded. Gobeithio bydda i'n gallu cadw i gerdded a dysgu Cymraeg!

*A oes gennyh chi stori? Os oes, anfonwch o ataf i, mae wastad angen straeon byrion yn y tudalennau yma.*

*Pob hwyl*

*Rob*

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



## Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

## Rhaglen Chwefror 2023

### Y De a'r Canolbarth

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

**4/2/23 Cwmllynfell/Cwmtwrch (Uchaf!)** Taith ffigwr 8, tua 6.5 milltir, peth dringo, (weddol hamddenol), llwybrau cadarn. **Man Cyfarfod:** Maes parcio ger y parc ar Heol Penygraig, Ystradowen, Cwmllynfell **SA9 2YP SN752124**  
**Arweinydd:** Eirian Davies 01792 844821

**11/2/23 Llys-faen, Caerdydd** Taith hamddenol tua 5 milltir yng Ngogledd Caerdydd o Lys-faen i Barc y Rhath trwy Goed Nant Fawr. Dim dringo. Dychwelyd i Lys-faen ar y tren - £2.90 neu £1.90 gyda'ch Cerdyn Teithio Rhatach Cymru  
**Man Cyfarfod** Maes Parcio Gorsaf Trenau Llys-faen, Cherry Orchard Road. Cŵd Post agosaf **CF14 0UE**  
**Arweinydd:** Alan Williams 07989 45134

**18/2/23 Dyffryn Cennen** Dilyn Afon Cennen lawr i bentref Trap ac ymlaen i Bont Gelli a Chapel Soar. Y ffordd nôl bydd heibio Eglwys Llandyfân a dros Garreg Dwfn, y copa mwyaf gorllewinol yn y Parc Cenedlaethol. Tua 8 milltir, gallu fod yn wlyb. **Man Cyfarfod** Maes parcio Castell Carreg Cennen, **SA19 6UA SN 667193**  
**Arweinydd:** Richard Davies 07986 562 584

**25/2/23 Cronfa Ddŵr Cwm Wysg** Taith 7 milltir esmwyth a hamddenol o amgylch y gronfa ddŵr. Ymlaen heibio'r Fedw Fawr ac edrych at geunant Afon Clydach o Fryn yr Wyn. **Man Cyfarfod** Maes parcio Coedwig Glasfynydd, Pont ar Wysg. Cŵd Post agosaf **LD3 8YF SN820271** **Arweinydd:** Arwel Michael 01639 844080

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

**Abergwaun, Sir Benfro.** Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun.

**SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

### **Birmingham**

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis

Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj

[janine310@btinternet.com](mailto:janine310@btinternet.com)

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

**Caerdydd** Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus.

Un wythnos ar Zoom, 10-10.40 wythnos wedyn yn yr Hollybush Coryton, 10.30-11.30. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda [eirianagwilym@gmail.com](mailto:eirianagwilym@gmail.com) neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

**Caerdydd** Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, awyr agored rhwng 1-2 o'r gloch. Ond erbyn canol Hydref nol i gaffi Neros yn Jams Hywel, Yr Ais fydd hi mae'n siŵr. Cysylltwch gyda [eirianagwilym@gmail.com](mailto:eirianagwilym@gmail.com) neu

@GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

**Caerloyw. Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, GL2 8DB.** Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil! ebost: [fibenson@gmail.com](mailto:fibenson@gmail.com)

**Caerwysg (Exeter)** Mae'r grŵp yn cyfarfod ar brynhawn dydd Mawrth yn Kenton. Mae'r lleoliad yn amrywio ond dw i'n hapus i bobl anfon e-bost ataf am fanylion.

Sandra Laslett [sandralaslett@hotmail.com](mailto:sandralaslett@hotmail.com)

**Cwm Ivy - Shw mae dydd Iau** Siop y Bobl Llanmadoc. Ewchheibio 'r dafarn Britannia tuag at yr eglwys ac mae'r siop ar y dde ar ben yr allt. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau am 11yb.

[bobwennol@ntlworld.com](mailto:bobwennol@ntlworld.com)

**De Ddwyrain Cernyw** - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf.

[lillian@environomics.co.uk](mailto:lillian@environomics.co.uk)

### **Dwyfor**

**Pwllheli** cyfarfod ar ddydd Llun cyntaf y mis am 10.30 ym Mlas Heli LL53 5YT

**Nefyn** cyfarfod yr 2il nos Lun y mis am 19.30 yn Yr Heliwr LL53 6HD

**Porthmadog** cyfarfod ar y 3ydd dydd Sadwrn y mis am 10.30 LL49 9HB

Am fwy o fanylion cysylltwch â Martin:

[m.croydon@bangor.ac.uk](mailto:m.croydon@bangor.ac.uk)

[www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor](http://www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor)

**Llanelli** Cyfarfod yn Nhafarn y Glowyr am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb.

[clwbclecsllanelli@gmail.com](mailto:clwbclecsllanelli@gmail.com)

**Oxford/Rhydychen** 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams

[jwilliams718@btopenworld.com](mailto:jwilliams718@btopenworld.com)

### **Porth, Y Rhondda**

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road

**CF39 9PG.** Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b.

Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

### **Southgate, Bro Gŵyr**

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw [bobwennol@ntlworld.com](mailto:bobwennol@ntlworld.com)

**St Albans, Hertfordshire.** Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: [amandaferon@outlook.com](mailto:amandaferon@outlook.com)

### **Thornbury, Glos**

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1<sup>st</sup> language speakers and learners. The next one will be on the 29<sup>th</sup> November followed by a break in December.

Contact: [britpgj@gmail.com](mailto:britpgj@gmail.com)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

**Trefdraeth, Sir Benfro.** Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad.

**SA42 oPH.** Croeso cynnes i bawb.

**Treffynnon** Dydd Gwener cyntaf bob mis am 2.00 yn y llyfrgell. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch: 07864 149078

**Y Fenni** Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost [Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk](mailto:Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk)

[Chetwynd@coleggwent.ac.uk](mailto:Chetwynd@coleggwent.ac.uk)

**Y Fenni** Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod

Trefnydd: Thomas Hughes - 07923 611342  
[gwybodaeth@menterbgtm.cymru](mailto:gwybodaeth@menterbgtm.cymru)

### Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - [bryro@btinternet.com](mailto:bryro@btinternet.com) neu ar 07985919358

## Tipyn o Hanes Cudd

gan Martin Jones

Mae fy merch a'i theulu'n byw yn Langstone nid nepell o Gasnewydd ac yn ystod y cyfnod clo bydden nhw'n mynd am dro yn y goedwig ar gyrion eu pentref. Un diwrnod, daethon nhw o hyd i weddillion anarferol ac ar ôl tipyn o ymchwil, darganfuom nhw taw gweddillion safle milwrol cyfrinachol yr ail ryfel byd ydyn nhw. Dyma'r hanes.

Yn 1940, roedd Prydain yn wynebu bygythiad Yr Almaen a phenderfynodd y llywodraeth sefydlu Unedau Cynorthwyol dros y wlad a fyddai'n gweithredu y tu ôl i rengoedd y goresgynwyr. Adeiladwyd rhwydwaith o safleoedd gweithredol cyfrinachol i'w defnyddio gan yr Unedau.

Mae'r safle ar bwys Casnewydd wedi'i guddio nid dim ond dan ddaear ond hefyd gan goed a llystyfiant, ac wedi'i leoli mewn man ddiaffordd. Roedd siafft mynediad wedi'i

hadeiladu o frics ac ysgol haearn ynndi oedd yn mynd lawr i siambr. Roedd caead y siafft yn golfachog â dim ond digon o le i ddyn basio trwyddo, roedd hi wedi'i orchuddio gan llystyfiant. Roedd y siambr ei hun yn bedwar metr dan y ddaear. Roedd hi'n mesur pedwar metr gan dri metr, ac roedd yn ddigon uchel i ddyn sefyll. Ynndi hi, byddai wedi bod 6 gwely bwnc, bwrdd, stôf, toiled cemegol, a goleuadau paraffin. Byddai siafft awyr wedi'i chysylltu â choeden gyfagos oedd yn rhannol wedi'i chafnu. Hefyd roedd twnnel dianc 60 troedfedd o hyd a ddaeth allan mewn chwarel nas defnyddir cyfagos. Roedd ofn y gallai ffrwydron rhyfel yr Uned ddod yn ansefydlog yn lleithder y siambr, felly roedd dau fyncer frwydron ryfel ar wahân.

Roedd rhwng 400 a 500 o safleoedd gweithredol ledled Prydain, gan gynnwys 17 yn Sir Forgannwg, 9 yn Sir Benfro, 8 yn Sir Fynwy, a 7 yn Sir Gaerfyrddin. Dydw i ddim wedi gweld unrhyw gyfeiriad at safleoedd yng Ngogledd Cymru neu Ganolbarth Cymru.

Roedd yr Unedau'n dra chyfrinachol a chafodd eu haelodau hyfforddiant arbenigol mewn herwryfela – llofruddio, ymladd heb arfau, difrodi ac yn y blaen. Darparwyd detholiad o arfau a ffrwydron i bob Uned.

Pe bai'r Almaenwyr wedi llwyddo, byddai'r Unedau Cynorthwyol wedi gweithredu y tu ôl i rengoedd y goresgynwyr, ac ymhlith eu targedau byddai wedi bod storfeydd tanwydd, llinellau rheilffordd, ffyrdd, pontydd, ac yn y blaen, yn ogystal â llofruddio uwch swyddogion Almaenaidd. Yn achos Uned Langstone, byddai Twnnel Hafren wedi bod yn darged hefyd. Byddai gwasanaeth yn yr Unedau wedi bod yn beryglus iawn, ac roedd gan yr aelodau ddisgwyliad einioes fer iawn - sef dim ond pythefnos.

Cafodd yr Unedau Cynorthwyol eu dadfyddino yn 1944 ar ôl glaniadau D. Day, ac ers hynny mae eu bodolaeth wedi aros yn gyfrinach tan yn ddiweddar. Ond nawr, diolch i waith nifer o haneswyr, mae hanes yr Unedau Cynorthwyol wedi dod i'r fei a gallwn ni gydnabod bodlonrwydd eu haelodau i aberthu eu bywydau i amddiffyn Prydain.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



## Llyn Llanwddyn

Ysgrifennodd Carol y gerdd yma er cof am ei Hen Daid a Nain. Roedd teulu ei Hen Daid yn byw yn Llanwddyn. Doedd dim Saesneg o gwbl yn y tŷ a dyna pam penderfynodd hi ddysgu Cymraeg.

### **Y Daith Hunllefus** gan Carol Evans

Ffarwel i fryniau Maldwyn  
A phentre' tawel bach  
Ffarwel i'r Afon Efyrynwy  
Cyfeillion a bwthyn bach  
Mae'r dydd yn dod o'r diwedd  
I foddi'r annwyl cwm  
Does dim byd yma i ni nawr  
Ein calonnau yn teimlo'n drwm.

Llwytho'r gwagenni yn uchel  
Gyda phopeth yn y tŷ  
Dodrefn, gwelyau a dillad  
Popeth sy'n werthfawr i ni  
Mae taith hunllefus yn galw  
Ble i fyw? A cheisio gwaith  
Teuluoedd yn mynd i'r Amerig  
Colli gwlad a cholli iaith,

Aeth rhai i lawr y pyllau glo  
I'r pentrefi yn y de  
Gyda rhes a rhes o dai llwyd  
A llwch o amgylch y lle.  
Trwy fy nagrau gallu gweld  
Fy mhentre' bach rwy'n siŵr  
Ond gorweddaï'r hen Lanwddyn  
Yn ddwfn o dan y dŵr.

Mae'r gerdd yma yn adlewyrchu'r poen o golli cartref, cymdogion a hefyd ffordd o fyw. Colli cymuned gyfan. Ac i wneud pethau'n waeth doedd dim un drop o'r dŵr yn cyrraedd tapiau'r tai lleol. Cyfoeth yr ardal yn cael ei bwmpio allan i wasanaethu ardaloedd cyfoethog yn Lloegr.

Dyma pam roedd yn bwysig i ni gael ein Senedd. Roedd mor hawdd i gymryd mantais o rym Lloegr yn San Steffan a thaflu pobl gyffredin o'u tai a chwalu eu cymdeithasau.

Ond dim mwyach! *Rob*



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Clwb Cardiau Post

Mae gan y Clwb Cardiau Post dros 450 o aelodau erbyn hyn ar draws y byd, ond y mwyafrif yng Nghymru.

Y bwriad tu ôl sefydlu'r clwb nôl yn 2019 oedd i gefnogi dysgwyr Cymraeg a chael pobl i ddod i wybod am ddysgwyr eraill yn eu hardaloedd.

Mae cyfoeth o dalent gyda ni o fewn y clwb ac ry'n ni wedi cynnal sawl cystadleuaeth... yr un diwetha' i ddathlu Dydd Miwsig Cymru.

Eleni byddwn yn cynnal cystadleuaeth agored (i bawb) sy'n cyd-fynd â dathlu Diwrnod y Llyfr yn fis Mawrth. Y dasg yw creu stori ar ffurf unrhyw gyfrwng ar gerdyn post. Tipyn o her!

## Cerdyn oddi wrth David Bowen

Shwmae pawb oddi wrth allfudwr yn Swydd Efrog. Dw i newydd ymddeol o yrfa broffesiynol brysur. Yn ystod fy ngyrfa dw i wedi teithio llawer, rhan fwyaf yn Ewrop, ac erbyn hyn, a finnau wedi ymddeol, does dim angen i mi deithio llawer. O'n i'n harfer mwynhau ymweld â dinasoedd tramor, ffeindio coffe traddodiadol er mwyn yfed coffi da ac ysgrifennu llythyr neu gardiau post adref (yn Saesneg; mae fy ngwraig yn dod o Loegr). Mae'n anodd curo ysgrifennu gyda phen a phapur, yn enwedig pan mae hanes ar y waliau o gwmpas, fel yn y 'grand cafes' yn Vienna neu Amsterdam. Weithiau dw i'n defnyddio fy 'iPad' ac 'Apple pencil'. Mae'n brofiad gwahanol, yn enwedig fel mae'n bosib cynnwys lluniau a chlipiau sain. Dyma bŵer y dechnoleg gyfoes. Achos dw i'n dwli ar ysgrifennu roedd e'n wych i ymuno â'r 'Clwb Cardiau Post' sy'n cael ei redeg gan Aled, Nia a Cetra. Mae'n bleser iawn i dderbyn cerdyn post o berson newydd gyda straeon am eu bywyd. Mae'n fwy o bleser i ysgrifennu nôl yng Nghymraeg nawr. Efallai pan fydd fy Nghymraeg yn well, bydd fy straeon yn fwy diddorol i'r derbynnydd ei ddarllen!

A beth amdanoch chi? A fyddoch chi'n anfon cerdyn at rywun? Pwy â wŷr pwy fydd yn ymateb. Rhewch cynnig arni!

**YMUNWCH GYDA'R  
CLWB CARDIAU POST  
CYMRAEG**



**Aelodau ar Draws  
y Byd**

*Members from all over the World*

*Plenty of opportunity to practise in Welsh*

**Cyfle i gefnogi  
Siaradwyr Newydd**

**Mae pawb yn hoffi  
derbyn Cerdyn Post**

**e-bostiwch:  
cardiaupost@gmail.com**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Taith Calon Cymru 7

Llanwrtyd – Cynghordy

gan Sylvia Harries

Wel, dyma ni ar y ffordd unwaith eto. Dyn ni'n dioddef dipyn o dristwch oherwydd dyma fydd ein hadran olaf yr ochr yma i 2023. Aethon ni dros Fannau Brycheiniog unwaith eto a gweld y wawr yn codi. Roedd y golygfeydd ar draws y Bannau wir yn brydferth. Mae'n mynd i fod yn ddiwrnod perffaith ar gyfer cerdded ar ôl y glaw ysgafn cynharach.



Roedden ni i gyd ychydig yn bryderus am ein taith heddiw oherwydd y streic trên. Roeddwn ni wedi archebu taci i fynd a ni o Gynghordy i Lanwrtyd. Ond, fyddai e'n troi i fyny? Dim cynllun 'B' y tro hwn. Doedden ni erioed wedi sylweddoli bod trafniadaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru mor wael. Gobeithio y bydd yr uwchraddio i reilffordd Calon Gymru yn creu fwy na dwbl nifer o'r trenau bob dydd yn welliant mawr i'r holl ardal a gwasanaethir gan y lein hon.

Cyrhaeddodd ein taci ar y dot. Mike oedd enw'r gyrrwr. Yn ogystal â'i waith fel gyrrwr daci mae o'n gwneud gwasanaeth symud tŷ, storio, gosod tai gwyliau ac yn ffermio. Da iawn iddo. Gollyngodd e ni yng ngorsaf Llanwrtyd, sy'n cael ei hadnewyddu, cawson ni lun gyda Mike ac yna cychwyn ar y daith gerdded yn ôl. Llanwrtyd yw'r dref leiaf yng Nghymru. Lle arall sy'n werth ymweld ag ef am ei rinweddau ei hun.

Wrth fynd trwy'r dref hanesyddol cerddwn ni allan o'r dyffryn cul a fyny'r llethrau. Defaid maen nhw'n ffermio fan hyn, defaid a mwy o ddefaid! Doedd y ffermwr ddim yn rhy hapus i weld saith o gerddwyr swnllyd. Roedd o'n brysur

yn ceisio casglu ei braidd i fyny, ond buon ni allan o'i ffordd yn gyflym. Unwaith i fyny ar y grib roedd y gwynt yn chwythu'n oer a miniog. Rhaid i'r hyn sy'n codi disgyn hefyd, dyma oedd gogoniant y rhan hon o'r llwybr.

Yn fuan roeddem ni wedi cyrraedd yr A483 unwaith eto, croesi'r rheilffordd, dim perygl yma heddiw, a ddringon ni eto i gyfeiriad y goedwig bell. Hanner ffordd i fyny'r ddringfa serth hon daethon ni o hyd i lecyn cysgodol a stopio am goffi. Roedd y golygfeydd ar draws y dyffryn yn wir ysbrydoledig. Roedd un ffermdy melyn llachar iawn. Ni fyddwch yn colli hynny ar noson dywyll! Roeddwn ni'n meddwl tybed a oedd y lliw felly rhag ofn i'r perchennog fynd ar goll neu er mwyn i'r gwasanaethau brys gyrraedd yn fuan mewn argyfwng.



Uwch ein pennau oedd y goedwig oedden ni'n anelu at. Egwyl coffi ar ôl dringfa serth a chawson ni cysgodi unwaith eto rhag y gwynt. Yma agorodd byd cwbl newydd i ni. Yn yr amgylchedd tywyll

hwn roedd bob math o fwsoglau yn ffynnu ac yn hongian o'r coed fel barfau. Mwsoglau o lawer o siapia a meintiau yn gorchuddio'r coed a oedd wedi cwmpo. Yna roedd y ffyngau. Amrywiaeth o siapiau, meintiau a lliwiau gydag enw fel Beechwood sickener, Penny bun a Calocera viscosa a llawer arall.



Unwaith i ni lwyddo i rwygo'n hunain i ffwrdd o'r byd tylwyth teg cyrraeddwn ni faes parcio'r goedwigaeth a chael cinio mewn steil heddiw, byrddau a chadeiriau gyda golygfa hyfryd i lawr i'r dyffryn islaw.

Mae llwybr igam ogam serth iawn yn ein harwain yn ôl i lawr y dyffryn ac ar hyd yr afon. Ac yn ôl eto i groesi'r A483 a dringfa serth i fyny at y trac rheilffordd sydd yma yn rhedeg yn uchel i gwrdd â Thraphont Cynghordy, 163 troedfedd o uchder a 18 bwa, yn y pen draw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

I lawr eto o dan y draphont ac yn ôl i'r orsaf. Fodd bynnag, cyn i ni droi am adref roedd rhaid mynd i'r fferm leol. Roeddwn ni wedi tynnu sylw ato y tro diwethaf. Os dach chi'n cofio roedden ni wedi anfon archeb i'r fferm a'r cyfeiriad ar yr amlen oedd 'ger y gyffordd T, rhwng y stabl a Maenor Cynghordy a siop sied fach'. Ni siomodd Swyddfa'r Post, ein harcheb am jamiau, wyau, picls a mêl yn aros amdanon ni.

Rhan arall wedi ei gwblhau ac unwaith eto taith bleserus iawn.

## Tyfu Llysiau a Bwyta Pom Poms

gan Ann Abbey

Ann dw i, dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am bytu blwyddyn nawr gyda SSiW a Duo Lingo. Wnes i ddechrau cwrs Mynediad ar Zoom gyda Choleg Gwent mis Medi a dw i'n mwynhau. Gobeithio bydda i'n ddigon da i sefyll yr arholiad ar lefel mynediad.

Ymddeolais un deg un o flynyddoedd yn ôl o nyrsio a nawr dw i'n treulio fy amser yn tyfu llysiau yn fy ngardd, mynd am dro gyda'r ci, a chwarae bowlïo. Dw i ddim yn dda iawn ar bowlïo ond dw i'n gallu tyfu llysiau bendigedig!

Mae fy nghi Tab, yn Forder Collie, du a gwyn ac un deg wyth mis oed. Dyw e ddim yn dda iawn. Wythnos diwethaf roedd e'n bwyta'r pom pom ar het fy mab yng nghyfraith. Mae'n het Denver Broncos ac yn arbennig a drud iawn. Wrth gwrs wnes i pom pom newydd yn gyflym ond doedd y lliw oren ddim yn iawn. Nes i brynu het newydd o America. Drud iawn iawn OUCH. Roedd fy nghi yn meddwl ei bod yn ddoniol dw i'n siŵr ond roedd fy mab yng nghyfraith wrth ei fodd.

Yfory byddaf yn trio siarad Cymraeg ar Zoom gyda ffrind syn byw yn Lloegr fel fi. Mae e'n arnodd dod o hyd i unrhyw un i sgwrsio â nhw yn Gymraeg ond mae Zoom wedi ei gwneud hi'n haws. Hefyd byddai'n gwneud jam chili fel anrhegion Nadolig i fy nheulu sy'n hoffi chili. Dw i'n mynd i wneud llawer o anrhegion eleni achos bod costau byw wedi codi llawer ac mae e'n neis i wneud rhywbeth personol i ffrindiau.

## Yn Araf Bach Mae Dal Iâr

gan Robert Arnold



*Ro'n i'n nofio yn y mynyddoedd  
Ro'n i'n dringo yn y môr  
Ro'n i'n canu yn y gampfa  
Ro'n i'n cadw'n heini yn y côr*

*Ro'n i'n rhedeg yn y dosbarth  
Ro'n i'n dysgu yn y ras  
Ro'n i ar goll mewn niwl o ferfau  
O'n i mewn neu o'n i fas?*

*Mae berfau Cymraeg yn anodd weithiau  
Pan rwyt ti'n ddysgwr newydd  
Nid wyt bob amser yn hollol siŵr  
Pan rwyt ti'n ansicr fel y tywydd*

*Ond nawr dw i'n fwy hyderus  
Er mod i ddim yn rhugl eto  
Bydd y ffordd o'mlaen i'n ddigon serth  
Ond gwna i'n well dw i'n betio!*

*Felly, nawr...  
Dw i'n gallu dringo yn y mynyddoedd  
Dw i'n gallu nofio yn y môr  
Dw i'n gallu cadw'n heini yn y gampfa  
Dw i'n gallu canu yn y côr!*

### Beth am sefydlu grŵp?

Byddai gwneud hyn yn gyfle i ymarfer beth dach chi wedi dysgu yn y dosbarth. Dim ond trwy ymarfer mae rheolau'r iaith yn dechrau gwneud synnwyr.

Byddech yn symud ymlaen yn llawer cyflymach ac yn cyfarfod eraill sydd yn dysgu Cymraeg.

Yn y blynyddoedd i ddod byddwch yn gallu helpu eraill sydd yn dechrau dysgu.

Siaradwch efo'r lleill yn y dosbarth, dewiswch gaffi, prynwch banded a sgwrsiwch!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Haia o Ohio

gan Tony Wessels


Helo pawb! Tony ydw i, ond dw i'n defnyddio'r enw Antwn pan dw i'n ysgrifennu yn Gymraeg gan amlaf. Roedd rhai o fy hynafiaid wedi dod o Gymru felly dw i wedi magu ddiddordeb mewn astudio'r Gymraeg.

Dw i'n byw yn Ohio yn yr U.D.A. Y mae llawer o hanes bywyd y Cymry yn y lle yma yn enwedig yn y deheubarth yn agos i gwm yr Afon Ohio. Dyma le roedd llawer o Gymry wedi ymgartrefu cyn y Rhyfel Cartref ac mae'r bryniau yno'n debyg iawn i'r bryniau yng Nghymru. Hefyd mae parthau yn ardal deheuol Pennsylvania yn llawn hanes o Gymry ac mae yno eglwys fach sy'n dal i gael gwasanaeth yn Gymraeg, yn nhref o'r enw Delta.



Yr Afon Ohio yw'n ffordd teithio pell ar gyfer ysgraffau sy'n cludo glo a nwyddau eraill bob cam i Louisiana gan fod yr afon yn cysylltu â'r Afon Mississippi sy'n lliferio i Gwlff Mecsico. Mae llawer o ffermydd yn Ohio gwledig yn cynnwys ffermydd cymunedau Amish sy'n ychwanegu swyn i'r ardal. Y mae ganddyn nhw siopau lle gallwch brynu dodrefn sy'n cael ei wneud ganddyn nhw. Yn y gogledd pell o'r dalaith mae Llyn Erie, a'r ffin rhwng yr UDA a Chanada.

Dw i'n hoffi'n byw yma.



## Dathlu

gan Ken Passmore



Hwre! Fe wnes i addo mai dathlu byddai'r peth cyntaf i fi wneud ar ôl dod rownd ar ôl llawdriniaeth ar fy nghalon. Dyna fi yn cael gofal dwys gyda thiwbiau mawr lawr fy ngwddf, bron yn tagu ond roeddwn i'n fyw. Cyn y llawdriniaeth roedd e'n teimlo'n od i feddwl am y dyfodol. Roedd un peth yn mynd trwy fy meddwl trwy'r amser - efallai bydd popeth yn gorffen nawr. Ar ôl mynd o dan yr anesthetig efallai na fyddai dim byd wedyn, o gwbl. Fyddwn i ddim yn gwybod mod i ddim wedi goroesi. Doedd e ddim yn helpu mai'r gân olaf a glywais i yn yr ysbyty cyn y llawdriniaeth oedd "My Way" gan Frank Sinatra - "and now the end is near, it's time to draw the final curtain". Roeddwn i'n gobeithio nad proffwydoliaeth oedd e.

Ond fe wnes i oroesi - felly rheswm i weiddi hwre a dathlu. Gallwn weld a chlywed yr holl weithgarwch yn y ward gofal dwys. Daeth fy mab a fy ngwraig i ymweld â fi. Doeddwn i ddim yn gallu siarad â nhw ond roeddwn i'n gallu dal eu dwylo i ddangos mod i'n eu hadnabod nhw. Y tro nesaf i mi eu gweld nhw, roeddwn i'n gallu siarad ac yn eistedd lan. Roedden nhw mor hapus i weld y gwahaniaeth o'r diwrnod blaenorol.

Roedd y nyrsys yn wych ond roedd y ward gofal dwys yn ofnadwy - y sŵn, y goleuadau a'r diffyg cwsg. Penderfynais i ofyn am dabledi i'm helpu i gysgu ac fe wnes i gysgu am dair awr y tro cyntaf. Ni sylweddolais i fod rhaid iddyn nhw fy neffro i gymryd fy mh wysau gwaed, fy nhymheredd a phethau eraill, bob tair awr.

Felly y tro nesaf i ddathlu oedd ar ôl i fi adael gofal dwys i fynd i'r ward gyffredinol. Ond roeddwn i'n dathlu'n rhy gyflym. Roedd saith claf arall yn y ward ac roedd rhai ohonyn nhw yn defnyddio peiriannau yn ystod y nos i helpu gwella eu hysgyfaint. Roedd llawer o sŵn a doedd y tabledi cysgu ddim yn gallu cystadlu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

gyda'r sŵn yn y nos. Y person y cwrddais ag ef gyntaf yn y ward oedd Paul yn y gwely gyferbyn â fi. Roedd e'n siriol iawn wrth iddo fe ddweud ei hanes. Wnaeth e ddim dod rownd ar ôl y llawdriniaeth am dri diwrnod ar hugain. Roedd ei deulu yn barod trwy'r amser am y newyddion gwaetha posib ond fe wnaeth e oroesi. Ar ôl iddo fe ddod rownd ffeindion nhw fod popeth yn ei gorff wedi cau i lawr ac roedd rhaid iddo fe gael llawdriniaeth argyfwng i'w helpu e i siarad. Roedd e'n hapus iawn achos ei fod e'n gallu gweld pethau'n gwella bob dydd. Roedd e'n gallu dathlu pob cam ar y ffordd i fod yn holliach. Roedd rheswm arall i fi ddathlu hefyd - roeddwn i'n lwcus na chlywais i hanes Paul cyn i fi gael fy llawdriniaeth.

Ar ôl pymtheg noson yn yr ysbyty penderfynodd y meddyg fy mod i'n ddigon da i fynd adre. Roedd rheswm arbennig i ddathlu unwaith eto. Roeddwn i'n hapus i fod gartre ac yn cysgu yn fy ngwely fy hun yn nhawelwch a thywyllwch fy ystafell wely a heb angen tabledi i gysgu. Hwre!

Calon Lân!



## Yr Avelona Star

gan John Simpson

Yr Avelona Star ar fenthyg i'r MOD yn cael ei baratoi ar gyfer Ynysoedd y Falkland 1982

Ymunais â fy llong gyntaf yn Efrog Newydd a threuliais y 5 mis nesaf ar y llong, a oedd ar lwybr rheolaidd yn cludo bananas, pîn-afalau a chnau coco o Ganolbarth a De America i arfordir dwyreiniol UDA yn bennaf. Roedd tri o gadlanciau – fi, Paul Owen a Mervyn Griffiths o'r Bala felly roedden ni'n gallu rhannu'r gwaith



rhyngon ni ac, i fod yn onest, am y cwpl o fisoedd cyntaf doeddwn i ddim yn gallu gweithio allan pam oedd Blue Star yn fy nhalu i.

Roedd Blue Star wedi talu am fy holl wisg, ac roeddwn i'n falch iawn ohono, ond roeddwn i wedi cynhyrfu pan dysgais ei fod yn rhan o fy swydd i ddod a pheilot budr ar fwrdd y llong a finnau'n gwisgo'r dillad gorau a gefais erioed. Fodd bynnag, ar ôl i mi ddod i arfer â'r ffaith na fyddwn i'n gwneud unrhyw beth oedd yn gofyn am unrhyw gymhwysedd technegol am o leiaf ddwy flynedd fe ddechreuais eithaf mwynhau fy safle isel.

Y porthladd cyntaf ar ôl tua phedwar diwrnod ar y môr oedd Puerto Limon yng Nghosta Rica, lle oedd yn swnio'n eithaf egsotig. Y capten oedd "Swansea Jones" ac roedd wedi gorfod gadael peiriannydd ar ôl ar yr ymweliad diwethaf gan ei fod wedi cael ei drywanu wrth fentro'n ffôl i'r lan gyda dim ond tri yn y grŵp

Fe gymerodd hi tua diwrnod a hanner i lwytho'r llong - oedd ar siarter i gwmni Dole. Hwylion ni'n ôl trwy Baltimore i fyny Bae Chesapeake, trwy'r gamlas a oedd yn gysylltiedig â Bae Delaware, yna yn ôl i Efrog Newydd.

Ar ôl cwpwl o fisoedd fe newidiodd sawl un o'r criw.

Wrth fynd i Gulfport o Ganolbarth America dechreuon ni'r diwrnod yn gwisgo gwynion trofannol amser brecwast. Erbyn amser cinio roedd y tymheredd wedi gostwng felly roedd y cod gwisg yn "Red Sea Rig" sef crys byr ei lewys, dim tei ond trowsus tywyll. Erbyn diwedd y pnawn roedden ni mewn gwisg lawn. Roedd y newid cyflym yn y tymheredd wedi digwydd achos gwynt oer iawn sy'n dod o'r Arctig ac yn chwythu i lawr dyffryn Mississippi. Roedd hyn yn debyg i'r hyn ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2022.

Un "porthladd" diddorol ble oeddem yn llwytho bananas oedd Turbo, sy'n cael ei ddisgrifio orau fel gwir dwll o le. Dyma ble mae De a Chanolbarth America yn ymuno. Defnyddiais italig gan ein bod wedi gorfod angori yn bell o'r porthladd. Roedden ni wedi'n hamgylchynu gan goedwig drwchus ac yn methu gweld unrhyw arwydd o fywyd tan y bore pan ddaeth ysgraffau enfawr ochr yn ochr â ni a dechrau ein dadlwytho. Tra ar angor fe


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

wnaethom lansio un o'r badau achub a mynd am daith i fyny un o'r cilfachau i mewn i'r goedwig drwchus werdd. Wrth i'r sianel fynd yn gulach fe benderfynon ni droi rownd, yn ffodus iawn hefyd oherwydd roeddem yn gallu clywed ambell i sblash mawr, efallai fod yn rhyw fath o alligator yn dod i weld pwy oedden ni.

Pwyll pia hi felly.

## Gwledd i'm Synhwyrâu

gan Robin Roberts



Mae'r haf o'r diwedd wedi cyrraedd Tasmania. Ar ôl gwanwyn oer, mae'r tymheredd yn ystod y dydd ar lefel y môr yn cyrraedd 20°C yn y rhan fwyaf o Tasmania.

Mae'r garddwyr yn ein plith yn falch o weld tomatos yn dechrau cynhyrchu ffrwythau.

Ar noson gynnes, yn ddiweddar, gyrrais i gopa 1270m Mount Wellington (kunanyi yn yr iaith frodorol leol). O ddinas Hobart mae'r daith 13 km i ben y mynydd yn cymryd tua 20 munud o yrru gofalus ar ffordd gul. Ar y ffordd i'r copa, mae'r ffordd yn mynd trwy goedwig ewcalyptws, sy'n edrych ac yn arogl'n hyfryd iawn. Ar y copa, prin yw'r coed, ond mae'r llystyfiant naturiol yn ei flodau llawn. Mae'r arogl yr un mor hyfryd i goedwig yr ewcalyptws, ond yn wahanol. I mi mae arogl y blodau alpaidd yn anodd ei ddisgrifio. Yn debyg i arogl afalau yn cael eu coginio gyda chlof mewn pot.

Mae'r golygfeydd dros y ddinas, afon Derwent, mynyddoedd a'r arfordir hardd yn syfrdanol. Mae'n wledd i fy synhwyrâu i gyd i fynd i'r lle hudolus hwn. Bob tro pan fyddaf ar ben y mynydd godidog hwn rwy'n dweud wrthyf fy hun "pam na wnaaf hyn yn amlach"?

## Ffordd Pererindod Penrhys

gan Claire Boot

Ydych chi'n gwybod bod llwybr hanesyddol o Gaerdydd i'r Rhondda? Ydych chi'n gwybod bod llawer o bobl wedi cerdded ar y ffordd yma dros lawer o ganrifoedd? Ydych chi'n gwybod pam?



Mae Ffordd Pererindod Penrhys yn dechrau yng Nghadeirlan Llandaf ac yn gorffen ym Mhenrhys. Mae'n 21 milltir ac yn teithio trwy Radur, Groesfaen, Llantrisant a Threbanog. Mae Penrhys ar fryn rhwng cymoedd Rhondda Fawr a Rhondda Fach.



Cerddodd bobl i Benrhys yn yr Oesoedd Canol. Mae ffynnon sanctaidd ar ochr y bryn a gallwch chi weld y ffynnon heddiw. Hefyd, roedd cerflun Mair pren enwog ym Mhenrhys - mae stori yn dweud cafodd ei ddarganfod mewn coed gan fynachod. Aeth pobl at y ffynnon a'r cerflun i chwilio am gymorth, iechyd a heddwch.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Heddiw, mae Ffordd Pererindod Penrhys yn llwybr i fwynhau am beth bynnag rheswm. Mae arwyddbyst ar hyd y ffordd a gallwch chi gerdded y cyfan mewn diwrnod neu yn rhannau. Mae'r hanes yn ddiddorol ac mae'r golygfeydd yn arbennig.

Gwelwch [www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/](http://www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/) i ddarganfod mwy. Beth am ymweld â Phenrhys neu hyd yn oed gwneud y daith eleni?

## Dau o Saeson naïf

gan Jon Belton

Ychydig o flynyddoedd yn ôl, ro'n i ym Mhorthmadog efo ffrind ac oedden ni yn siarad efo gwerthwr tai lleol. Dau o Saeson naïf! Mae hi'n dweud wrthon ni fod ei merch yn siarad Cymraeg adre ond Saesneg yn bennaf yn y brifysgol.

Dyweddodd fy ffrind (yn Saesneg wrth gwrs) "Oh, she speaks Welsh as well as English, that's great. Are you bilingual also?" Doedd yr ateb ddim yn gynnig iawn "Yes, that's why you are able to talk to me". Doedd y neges ddim ar goll arna i. Saesneg yw'r ail iaith.

## Tylwyth

Adolygiad gan Ailnor Evans

Y prif resymau fy mod i'n hoffi'r ddrama hon yw ei bod hi'n glyfar, yn heriol ac yn ddewr. Bach



o rebel ydy Daf James, fi'n credu, heb achosi poen na sarhad i neb.

Gwnes i ddarllen y stori gyda fy nosbarth nos, cyn i fi weld y ddrama.

Wrth gerdded mewn i'r awditoriwm cyn i'r sioe ddechrau, o'n i'n synnu i weld, yn enfawr ac

yng nghanol y llwyfan, y twb-poeth 'na. Y twb-poeth a oedd yn cynrychioli efallai'r darn mwyaf pryfoclyd yn y stori, ble roedd grŵp o ddynion (rhai ohonyn nhw yn ddiethriaid i'w gilydd) yn cymryd cyffuriau ac yn cael sbort gyda'i gilydd mewn twb-poeth, mewn clwb nos.

O'n i'n cofio ymateb rhywun yn fy nosbarth, ar ôl darllen bach o'r llyfr; dywedodd, mewn ffeidd-dod, taw rwtsh llwyr oedd y llyfr, llawn rhyw, cyffuriau a rhegi – "... dynion hoyw nodweddiadol y brif ddinas...". Cefais ysgytiad achos o'n i'n meddwl bod y sylw yn un byr -olwg ac yn stereoteipio.

A, gan eistedd lawr yn fy sedd ar noson y ddrama, o'n i'n tybio sut y bydd y gynulleidfa yn mynd i ymateb i'r ddrama hon. I fi, roedd llawer o bobl yn edrych fel rhai canol oed, dosbarth canol, efallai wedi byw bywydau eithaf traddodiadol yn ein hardal amaethyddol yn bell o'r dinasoedd mawr. Ond efalla taw fi sy'n stereoteipio nawr.

Ie, roedd llawer iawn o sôn am ryw, am gyffuriau ac am fynd mas i gael hwyl, ond dydw i ddim yn meddwl mai hynny oedd yr holl bwynt, na phrif bwynt, y stori. Roedd y stori yn dorcalonnus, yn gryf ac yn emosiynol - am bobl oedd yn caru ei gilydd, oedd yn brwydro yn erbyn credoau cyfansoddiadol mwyafrif a'u hansicrwydd eu hunain - efallai y gallwn ni gyd uniaethu â phethau fel hynny.

Roedd y syniadau yn ddewr achos wnaeth y stori ymddangos gwendidau canfydded y cymeriadau a beth yr oedden nhw'n dreial gwneud - sef magu plant - er gwaethaf popeth.

Roedd yr awditoriwm yn hollol lawn: doedd dim sedd wag. Yn amlwg, mae'r bobl yn cefnogi theatr fyw Cymraeg. A dw i'n meddwl bod Daf James wedi defnyddio'r cyfle hwn i gyflwyno syniadau dydy llawer iawn ohonom ddim yn gyfarwydd ag, weithiau, ddim hyd yn oed yn gyfforddus, â nhw. Ac efalla bydd y cynhyrchiad hwn yn newid agweddau.

Roedd y dorf i gyd ar eu traed ar ddiwedd y nos - roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Siwrne Iaith

gan Erica Mackie

Pam nad o'n i'n siarad Cymraeg pan o'n i'n ifanc? Roeddwn i'n byw yng nghwm Rhymini yn Ne Cymru. Ond yn anffodus, dwi ddim yn medru cofio unrhyw un yn siarad Cymraeg â mi nac o'm cwmpas. Felly pam na ddysgais Gymraeg?

Fy nghof o ddsbarthiadau Cymraeg yn yr ysgol oedd edrych ar lun mawr ar y wal efo'r athrawes yn gofyn i'r dosbarth beth oedd y 'peth' yr oedd hi'n pwyntio ato. Ni chefais fy ysbrydoli.

Roedd fy nhad yn dod o Swydd Derby ac roedd e'n awyddus iawn i'w blant i gyd siarad Cymraeg, dwi'n ei gofio fe'n dweud wrtha i y byswn i'n difaru peidio talu sylw yn yr ysgol pan fydda i'n hŷn. O, ba mor wir oedd ei eiriau!



Symudais i Ogledd Cymru i goleg hyfforddi athrawon yn Wrecsam ar ddiwedd y 60au. Mae'r ardal hon ar y ffin â Lloegr ac yn un o'r ardaloedd yng Nghymru sy'n siarad Saesneg yn bennaf. Yn ystod fy nghyfnod yn dysgu ac yn darlithio yn yr ardal, chefais i erioed fy holi os oeddwn yn siarad Cymraeg. Roedd fy acen Gymraeg yn dweud y cwbl.

Am flynyddoedd lawer fy mhrif weithgaredd hamdden oedd hwylio ac roedd gen i gwch hwylio ym Mhwillheli. Ro'n i yng nghanol cymuned Gymraeg erbyn hyn a daeth geiriau proffwydol fy nhad yn ôl i mi. Erbyn hyn roedd gen i'r angen a'r awydd i siarad efo'r bobl leol yn Gymraeg. Penderfynais drïo dysgu Cymraeg ac roedd y cyfnod clo Cofid yn caniatáu'r amser i fi dechrau.

Sut fyddai modd dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod clo? Des i o hyd i SSiW a phenderfynu trio taith drwy'r iaith er mwyn galluogi fi, un diwrnod, i gael sgwrs gydag eraill yn Gymraeg

Be' dwi'n hoffi am SSiW ydy'r hyblygrwydd o ddysgu gan fy mod i'n medru gwneud fy ngwersi yn y car, ar y trê neu pan dwi allan am dro ac ati. Cymerodd ychydig o amser i mi addasu i'r drefn ddysgu newydd hon, gan imi feddwl bod yn rhaid i mi weld yr iaith er mwyn ei siarad! Fodd bynnag, ni welais y gair llafar ond mi glywais ef. Fe wnes i ddyfalbarhau ac rwy'n gwybod rŵan nad oeddwn yn poeni am fynd yn ôl i ystafell ddsbarth i ddysgu yn y ffordd draddodiadol, a oedd yn ymwneud â gwaith cartref a chadw at amser. Dwi'n deall y broses hyn gan i mi ddysgu a phregethu am flynyddoedd lawer, ond dwi wedi teimlo rhyddid wrth ddysgu mewn ffordd wahanol - dwi'n ei chael hi'n fwy creadigol ac yn bwysicach fyth dwi'n cael fy annog i ddweud rhywbeth, (unrhyw beth) yn Gymraeg - hyn ffeindiais i'n rhyddhad. Rwy'n symud ymlaen ac weithiau am yn ôl ar gyflymder sy'n fy siwtio ac mae gen i gyfoeth o bobl sydd eisïau fy helpu a'm hannog i barhau.

Rwy'n neidio'n rheolaidd i sesiynau Zoom SSiW i ymarfer gyda dysgwyr eraill. Hefyd dwi'n rhan o ddau grŵp sy'n bwysig i mi, mae un grŵp yn cwrdd ar lein i ddysgu a sgwrsio ac fe wnaeth Nia Llewelyn o SSiW fy helpu i sefydlu'r grŵp arall. Grŵp sy'n cyfarfod i gael paned, cacen a sgwrs mewn lleoliad anffurfiol yn Yr Hen Gapel, Saltney Ferry, Sir y Fflint.

Fel eraill, rwy'n siŵr, nid yw dysgu wedi bod yn fêl i gyd bob amser, mae bywyd yn sefyll yn y ffordd ac weithiau rwy'n dod o hyd i esgusodion i beidio dysgu. Ond rwy'n dal i ddysgu ac mae hyn diolch i gefnogaeth dysgwyr Cymraeg eraill a SSiW

Rwy'n mwynhau fy nysgu a chyfarfod eraill sy'n gwneud yr un peth, dyna sydd yn gwneud hyn yn brofiad mor arbennig. Diolch Dad, nawr fy mod yn fy saithdegau, rwy'n deall beth oeddech chi'n ceisio ei ddweud wrtha i!

**Is there a Welsh group in your area?**

If so you have a great opportunity to practice your Welsh, make friends and have great fun.

**Check the pages in Y Wennol!**



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Gwisgo fy Anorac

Neu Gêm Bingo'r Blychau Post

gan Anne Lloyd

Sut dych chi'n gwybod eich bod chi'n heneiddio, tybed? Wel, am y rheswm bod eich cymalau chi'n brifo a'ch cof chi'n mynd fel gogor, i enwi dim ond rhai. Ac weithiau, efallai eich bod chi'n ymddwyn bach yn od. Ond chwilio am flychau llythyrau?? Siawns nad o'n i mor ddiflas yn y gorffennol! Ro'n i'n arfer chwarae amrywiaeth o chwaraeon yn gyson, a chymdeithasu gyda ffrindiau a chydweithwyr.



Blwch Jade Jones

Jade Jones. Ces i fy moddhau, er gwaetha'r gwatwar. Nes ymlaen, ro'n i'n awyddus iawn i weld y bocws aur ym Marina Abertawe, ar ôl i'r nofwraig Ellie Simmonds, a oedd yn byw yn Abertawe, ennill yn y Gemau Paralympaidd.

Ac wedyn bach o hoe. Wel, efallai ddim cyn lleied â hynny, ond am wyth blynedd, a dweud y gwir. Beth ddigwyddodd i bennu'r hoe? Ar Gofid mae'r bai! Ro'n ni'n mynd am dro yn ddyddiol pan, am ryw reswm, cafodd fy sylw ei dynnu at y seiffr ar flwch llythyrau, sef seiffr Edward VII, a oedd yn ffansi iawn. Er fy mod i'n ymwybodol o'r seifffrau ar y blychau, do'n i erioed wedi meddwl amdany'n nhw. Daeth hi'n her i ddod o hyd i bob un, ac o hynny ymlaen, ro'n i'n 'gwisgo fy anorac'.



Fictorianaidd

Cafodd stampiau eu cyflwyno yn ystod teyrnasiad Victoria, felly ro'n i wrth fy modd i weld blwch llythyrau bach mewn wal yn

Aberhonddu. Ac ychydig ymhellach i lawr y ffordd, roedd blwch 'normal' Victorianaidd hefyd. Ro'n i'n hapus iawn.

Yr haf yna, aethon ni ar wyliau i Brestatyn eto (rhaid bod rhywbeth yn y dŵr yna!), a daeth yr anorac allan unwaith eto. Ac ar bwyoedd y bai y tro 'ma tybed? Credwch neu beidio, neb arall na'r 'yarnbombers'. Pwy? Dw i'n eich clywed



Yarnbombers

chi'n gofyn. Mae'n debyg taw math o 'street graffiti' yw 'yarnbombing', yn ôl Wikipedia (ia, dylwn i wybod yn well). Ar wibdaith i Rhyl, gwelon ni flwch llythyrau â gorchudd gwlan ar ei ben, oedd yn d a t h l u canmlwyddiant y Royal British Legion. Roedd sawl un arall gwahanol yn yr ardal - ro'n i ar daith ymchwil (llwyddiannus) i ffeindio mwy. Ro'n i yn fy elfen! Gwyliau gwych oedd hynny; gwelais i flwch llythyrau Victorianaidd crand hecsagonal yn Llandudno.

Ac wedyn, gwnaeth e fy nharo i - beth am Edward VIII? Wedi'r cwbl, doedd e ddim ar y frenhinfainc am amser hir. Ildiodd e'r goron cyn ei goroniad, ar ôl teyrnasiad o ddim ond 325 diwrnod. Fel y byddwch chi'n disgwyl, does dim llawer o flychau llythyrau â'i seiffr. Yn ôl i Wikipedia (cywilydd arna i eto!), lle mae pobl sy'n gwirioni ar ysgrifennu am y peth. Yn ôl un gwefan, cafodd 271 eu gwneud yn ystod teyrnasiad Edward VIII, a dim ond 130 yn dal i fodoli. Ond mae un yng Nghaerdydd, dim yn rhy bell. Ac ar y ffordd i wylio'r Swans yn chwarae yn erbyn fy nhîm arall, West Brom, ymwelon ni â'r Greal Sanctaidd o flychau llythyrau yn Eglwys Newydd. Mae fel bingo, mae 'tŷ llawn' gyda fi erbyn hyn! Ac mae bingo yn ddifyrwaith yr henoed hefyd, nag yw e!



Edward VII

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

A beth nesa? Yn ôl pob sôn, mae bocs Edward VIII arall yn Y Trallwng, ond dw i'n casáu'r ffordd i gyrraedd y lle (gormod o droeon, yn enwedig ar ôl Llanfair ym Muallt). Felly, gall hynny aros am ddiwrnod arall. Efallai y bydd y daith nesa i Gaerdydd, lle mae bocs llythyrau Victorianaidd yn Y Rhath yn cael ei lyncu gan goeden! Neu beth am fynd i Aberhonddu unwaith eto? Dw i'n credu bod hen flwch llythyrau gwyrdd (mae hynny'n stori arall!) yna, yn amgueddfa 'Y Gaer'. Mae cymaint o ddewis. A dw i'n ffaelau aros i weld blwch llythyrau Charles III.

**Newydd!**

**Gwanwyn**  
Spring 2023

Dewch i siarad Cymraeg...

**Hwb**  
Cymraeg  
Dwyfor

**4edd nos Fercher y mis** 25/01/23  
**4th Wednesday eve. of the month** 22/02/23  
19:30 22/03/23

Y Plu, Llanystumdwy, LL52 OSH

PROFESSOR  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

ms.crowson@bangor.ac.uk  
www.facebook.com/FreeCymraegDwyfor

Amgueddfa Cymru  
Welsh Museum  
Llanystumdwy  
LL52 0SH

**BORE COFFI CYMRAEG**  
Dydd Mercher / Dydd Sadwrn  
11-12 am  
Saltney Ferry

Wed 11, 25 - Ionawr / January  
8, 22 - Chwefror / Feb.  
8, 22 - Mawrth / March

Sat: 7, 21 - Ionawr / January  
4, 18 - Chwefror / Feb.  
4, 18 - Mawrth / March

**CAFE**

**Come and speak Welsh!**

@oldchapelcafe yes2ideas

The Old Chapel Cafe, Filrst Road, Saltney Ferry, North Wales, CH4 0EJ

For more details contact: Erica@mack1e.co.uk



## Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Ionawr 2023 – 'Siarad Hanes'  
gyda Dr Elin Jones.

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Dechreuodd Elin gan bwysleisio bod hanes o'n cwmpas ni bob dydd, yn cynnwys yn y geiriau ein bod ni'n defnyddio. Felly pan ydyn ni'n siarad mae ein geiriau yn cynrychioli digwyddiadau a chyfnodau o'r gorffennol.

Gwelon ni lun o'r Calendr Celtaidd Coligny a oedd wedi ei ddarganfod yn Ffrainc yn 1897. Mae'n dyddio o'r ail ganrif ac mae'r geiriau mewn Lladin a Galaid. Un gair ar y Calendr ydy 'mat' yng Ngalaid a siaradodd Elin am y tebygrwydd gyda'r gair 'mad' yn Gymraeg sy'n golygu 'lwcus' felly mae'n bosib adnabod y cysylltiad rhwng geiriau yn ieithoedd gwahanol mor bell yn ôl â'r ail ganrif.

Datblygodd Syr William Oriental Jones, 1740-1794, y syniad o ffynhonnell gyffredin ar gyfer ieithoedd. Mab William Jones o Sir Fôn a ddatblygodd 'Pi' yn fathemateg oedd e ac roedd e'n arbenigwr mewn llawer o ieithoedd. Sylwodd fod Sansgrit yn debygol i Roeg a Lladin a chafodd yr ieithoedd wreiddyn cyffredin a'u bod nhw'n perthyn i'r iaith Geltaidd ac ieithoedd eraill. Arweiniodd hyn at ei ddamcaniaeth o deulu ieithoedd Indo Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys y syniad o amrywiaeth o deuluoedd ieithoedd fel Almaeneg, Rhufeinig a Cheltaidd. Wrth gwrs, mae Cymraeg yn y teulu Celtaidd gyda Llydaweg a Chernyweg.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Roedd dylanwadau eraill ar ein geiriau. Mae dylanwad y Rhufeiniaid a Lladin yn golygu bod llawer o'n geirfa grefyddol yn dod o Ladin. Geiriau fel 'allor', 'eglwys' ac 'esgob'.

Roedd y Normaniaid yn ddylanwad arall ar ein hiaith pan oedd Eingl-Sacsoneg a Ffrangeg yn uno i ffurfio Saesneg ac mae rhai geiriau yn Gymraeg wedi ein cyrraedd yn ystod y canrifoedd wedi hynny.

Pan oedd pobl yn teithio dros y byd daeth geiriau newydd o ddiwylliannau eraill fel Amerig trwy'r Sbaeneg – er enghraifft, 'siocled', 'canibal' ac 'aligator'.

Hefyd, daeth geiriau o wleidyddiaeth, crefydd a'r chwyldroadau gwleidyddol – 'Piwritan', 'Chwig', 'Annibyniaeth', 'Aristocrat', a 'Democrat'.

Diolch yn fawr i Elin am sgwrs ddiddorol iawn.

**Nos Lun, 13 Chwefror – 7 30yh ar Zoom – Andrew Green yn siarad am 'Ystrad Fflur'.**

Byddwn ni'n casglu aelodaeth 2023 ar hyn o bryd - £15 yr un ar gyfer 2023 neu £3 i ymuno ag un sesiwn. Os oes diddordeb gyda chi'n ymuno â'r Gymdeithas, cysylltwch â [nestahumphreys@btinternet.com](mailto:nestahumphreys@btinternet.com)

## Un Peth Arall



Ar ddydd Mawrth y 25ain o fis Ionawr ces i'r pleser o ymuno â dysgwyr yn Neuadd Eglwys Sant Pedr yn Llangland, Gŵyr. Mae'r neuadd yn le prysur dros ben, roedd llond y lle o bobl yn eistedd a mwynhau paneidiau wrth sgwrsio ac

ystafell fawr o bobl yn gwneud Tai-chi. Roedd y lle yn byrlymu!

Cyfarfod cyntaf y grŵp o ddysgwyr oedd hi ac roedd tua dwsin ohonom ni o gwmpas y bwrdd, pawb yna i ymarfer eu Cymraeg. Byddai'r grŵp yn cyfarfod bob dydd Mercher o 12.30 tan 2.30. Mae'r eglwys ar y cornel yn syth cyn i chi droi at Caswell.

Felly, dewch i fwynhau ymarfer eich Cymraeg – a chael hwyl!

## Geirfa

### Geoff Causer

Peiriannydd - engineer

### Caroline de Groot

Dyfnaint - Devon

Arfordir - coast

### David Robinson

Arlunudd - artist

### Elinor Landeg

Lleferydd - speech

### Dorothy Holland

Serch hynny - in spite of that

Ynganu - to pronounce

### Ken Passmore

Ffrwd - stream

Pwysleisio - to emphasise

Atgyfnerthu - to reinforce

### Lindy Calvin-Thomas

Meithrin - nursery

Swydd Efrog - Yorkshire

### Tipyn o hanes cudd

Nid nepell - not far from

Gweddillion anarferol - unusual remains

Darganfod - to find

19 Gwynebu - to face

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Bygythiad - threat

Unedau cynorthwyol - support units

Rheng - rank

Goresgynwyr - invaders

Rhwydwaith - a web

Gweithredol - active

Llystyfiant - undergrowth

Diarffordd - remote, out of the way

Colfachog - hinged

Wedi'i chafnu - hollowed out

Cyfagos - nearby

Ffrwydron rhyfel - ammunition

Lleithder - dampness

Hyfforddiant arbenigol - special training

Herwryfela - guerilla fighting

Disgwyliad einioes - life expectancy

Dadfyddino - to de-militarise

### **Llyn Llanwddin**

Adlewyrchu - to reflect

Cymryd mantais - to take advantage

Grym - power

### **Cerdyn David Bowen**

Allfudwr - an exile

### **Taith Calon Cymru**

Y wawr yn codi - daybreak

Trafnidiaeth gyhoeddus - public transport

Uwechraddio - to upgrade

Llethrau - slopes

Praidd - flock

Llecyn cysgodol - sheltered spot

Mwsogl - moss

Traphont - viaduct

### **Haia o Ohio**

Gan amlaf - most of the time

Hynafiaid - ancestors

Ymgartrefu - to make a home

Ysgraff - barge

Llifeirio - to flow

Swyn - charm

### **Dathlu**

Llawdriniaeth - surgery

Gofal dwys - intensive care

Tagu - to choke

Y dyfodol - the future

Goroesi - to survive

Proffwydoliaeth - prophesy

Dathlu - to celebrate

Gweithgarwch - activity

Diwrnod blaenorol - the previous day

Diffyg cwsg - lack of sleep

Tymheredd - temperature

Ward gyffredinol - general ward

Ysgyfaint - lungs

Yn holliach - completely healthy

### **Yr Avelona Star**

Efrog Newydd - New York

Llwybr reolaidd - regular route

Cludo - to carry

Arfordir - coast

Yn bennaf - mainly

Cadlanc - cadet

Gwisg - clothing but in this case - uniform

Cynhyrfu - to agitate

Bwrdd y llong - the deck

Cymhwysedd - qualifications

Eithaf mwynhau - to quite enjoy

Porthladd - port

Peiriannydd - engineer

Trywanu - to stab

Yn gysylltiedig â - connected to

Gwynion trofanol - equatorial whites

Gostwng - to fall

Gwir dwll o le - a real hole of a place

Angori - to anchor

Amgylchynu - to surround

Ysgraffau - barges

Dadlwytho - to unload

Cilfach - cove

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pwyll pia hi - best be careful

### **Gwledd i'm synhwyr**

Gwledd - feast

Synhwyr - senses

Yn ein plith - in our midst

Llystyfiant - undergrowth

Clof - clove

Godidog - excellent

### **Pererindod Penrhys**

Llwybr hanesyddol - historical path

Cadeirlan - Cathedral

Cerflun - statue

Mynachod - monks

Arwyddbost - signpost

### **Saeson naïf**

Yn bennaf - mostly

Cynnil - sparing

### **Tylwyth**

Prif reswm - main reason

Heriol - challenging

Sarhad - insult, offence

Cynrychioli - to represent

Pryfoclyd - provocative

Dieithriad - a stranger

Cymryd cyffuriau - taking drugs

Ymateb - reaction

Ffieidd-dod - loathing

Rhegi - to swear

Dynion hoyw - gay men

Nodweddiadol - characteristic

Ysgytiad - shock

Byr-olwg - short-sighted

Traddodiadol - traditional

Torcalonnus - heartbreaking

Credoau - beliefs

Cyfansoddiadol - constitutional

Ansicrwydd - uncertainty

Uniaethu - to identify (with)

Gwendid - weakness

Canfyddiad - perception

### **Siwrne Iaith**

O'm cwmpas - around me

Ysbrydoli - to inspire

Difaru - to regret

Coleg hyfforddi - training college

Darlithio - to lecture

Hwyllo - to sail

Proffwydol - prophetic

Awydd - desire

Hyblygrwydd - flexibility

Gair llafar - spoken word

Dyfalbarhau - persistence

Pregethu - to preach

Yn fêl i gyd - always easy

### **Gwisgo fy Anorac**

Heneiddio - to get older

Cymalau - joints

Gogor - sieve

Ymddwyn - to behave

Yn gyson - regularly

Cydweithwyr - fellow workers

Mynnu - to insist

Buddugoliaeth - victory

Gwatwar - to mock

Bach o hoe - a bit of a rest

Cyn lleied - as little

Seiffr - cypher

Teyrnasu - to reign

Gwibdaith - a trip

Gorchudd gwlan - woolen covering

Ymchwil - research

Yn fy elfen - in my element

Brenhinfrainc - throne

Gwirioni - to dote

Bodoli - to exist

Greal Sanctaidd - Holy Grail

Difyrwaith - an interest

Ffaelau aros - unable to wait